Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
—
Equality and Social Justice Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Jane Hutt AS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

5 Mai 2022

Annwyl Jane

Dyled a'r Pandemig

Diolch am eich llythyr dyddiedig 31 Mawrth yn cynnwys diweddariad ynghylch argymhelliad 2 yn ein hadroddiad ar Ddyled a'r Pandemig, a nodwyd gennym ar 25 Ebrill.

Roeddem yn croesawu'r wybodaeth a ddarparwyd gennych o ganlyniad i'r ymarfer ymchwil a byddem yn ddiolchgar pe gallech barhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.

Fodd bynnag, roeddem yn synnu o nodi'r diffyg data sydd ar gael ar y berthynas rhwng dyled a dibyniaeth ar alcohol a/neu gamddefnyddio sylweddau. Credwn fod hwn yn faes allweddol sy'n peri pryder, yn enwedig yng ngoleuni'r argyfwng costau byw presennol sy'n effeithio ar aelwydydd a'r potensial ar gyfer anawsterau pellach o ganlyniad i hynny. Byddem felly yn gofyn a allech amlinellu pa gamau y gellir eu cymryd i edrych ar ymchwil bellach ar y mater hwn, gan gynnwys defnyddio'r Uned Tystiolaeth a Data Cydraddoldeb i gasglu data.

Yn gywir

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol